OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 3420 (Cy. 348)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llan-ffwyst, Sir Fynwy i Fryn-mawr, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ionawr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd - Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Ionawr 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llan-ffwyst, Sir Fynwy i Fryn-mawr, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 5 Ionawr 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the* trunk *road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Fynwy a Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder 50 M.Y.A.) (Cymru) (Rhif 1) 1969**(3)** a Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Glanbaiden, Gilwern, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010**(4)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol â darpariaethau adran 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, y bydd yn cymryd mwy na 18 mis i orffen y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn. Caiff y Gorchymyn hwn ei ddirymu pan gaiff y gwaith ei gwblhau.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2014

***R Morgan***

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1969/745
**(4)** O.S. 2010/1762 (Cy.167)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Llan-ffwyst hyd at bwynt 1.45 o gilometrau i'r gorllewin o'r Gyfnewidfa honno.

### ATODLEN 2
### Terfynau Cyflymder o 40 mya neu 10 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.45 o gilometrau i'r gorllewin o Gyfnewidfa Llan-ffwyst hyd at bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 70 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden hyd at bwynt 1.94 o gilometrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Llan-ffwyst.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 60 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden hyd at drwyniad gogleddol yr ynys draffig ar ochr ogleddol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad gogleddol yr ynys draffig ar ochr ogleddol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 110 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden.

## ATODLEN 3
## Terfyn Cyflymder o 10 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o Gylchfan Glanbaiden hyd at bwynt 110 metr i'r gorllewin o'r gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Glanbaiden.

## ATODLEN 4
## Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o danbont y gamlas wrth bwynt 535 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden hyd at drwyniad gogleddol yr ynys draffig ar ochr ogleddol Cylchfan Bryn-mawr, heb gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Bryn-mawr.